

Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

Adroddiad ar yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad

**Ymgynghoriad ar y cynnig i drawsnewid addysg
arbennig yn y Fro trwy:**

- **sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn ysgol
gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri o fis
Medi 2021;**
- **dirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a
Lles newydd dan reolaeth Ysgol Y Deri o fis Medi
2021; a**
- **chodi adeilad newydd ar gyfer disgyblion y
Ganolfan Dysgu a Lles ar safle Depo Court Road yn y
Barri o fis Ionawr 2023.**

Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille.

Gellir trefnu hefyd bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill os oes angen.

Cysylltwch â ni ar 01446 709828 i drefnu hyn.

Cynnwys	Tudalen
Cefndir	3
Amlinelliad o'r broses ymgynghori	3
Ymatebion i'r ymgynghoriad	5
Casgliad	15
Atodiad A – Crynodeb o faterion allweddol a godwyd gan ymgynghoreion statudol a'r ymateb i'r materion hynny	17
Atodiad B – Crynodeb o sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig	21
Atodiad C – Cwestiynau cyffredin	23
Atodiad D – Ymgynghori a fu gyda phobl ifanc	24
Atodiad E – Ymateb gan Estyn	28
Atodiad F – Cofnodion y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant	31
Atodiad G – Ymateb gan gorff llywodraethu Ysgol Y Deri	33

Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd rhwng **7 Medi 2020** ac **18 Hydref 2020**, mewn ymateb i gynnig y Cyngor i

- **sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri (YYD) o fis Medi 2021;**
- **dirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles (CDaLI) newydd dan reolaeth YYD o fis Medi 2021; a**
- **chodi adeilad newydd ar gyfer disgyblion y Ganolfan Dysgu a Lles (CDaLI) ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r broses ymgynghori, yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn cynnig manylion pellach am y materion allweddol a'r sylwadau ffafriol a godwyd gan randdeiliaid.

Amlinelliad o'r broses ymgynghori

Roedd y prosesau ymgynghori'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd y prosesau ymgynghori'n rhoi'r cyfle i ymgynghoreion penodedig ddysgu am y cynnig ac i Gabinet y Cyngor glywed barn pawb sydd â buddiant er mwyn iddynt allu cael eu cymryd i ystyriaeth cyn bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud.

Cyhoeddi'r ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol trwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb a ddosbarthwyd yn electronig i ymgynghoreion penodedig ac a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ar 7 Medi 2020. Cafodd ymgynghoreion ddolen mewn neges e-bost hefyd a oedd yn mynd â hwy at wefan Cyngor Bro Morgannwg. Roedd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais hefyd.

Mae cyhoeddi dogfen ymgynghori'n ganolog i'r broses ymgynghori ar gyfer ad-drefnu ysgolion ac fe'i rhagnodir gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd y ddogfen ymgynghori'n nodi'r cynnig a oedd dan ystyriaeth, y rhesymeg dros y cynnig a manylion yr ymarfer ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Cafodd ymgynghoreion eu hysbysu ynghylch argaeledd fersiwn ar-lein i'w chwblhau.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad

Cafodd gweithgarwch ymgysylltu ar gyfer yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig ei gyflawni gydag ymgynghoreion penodedig sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fe ymgynghorwyd â'r grwpiau canlynol:

Staff (sy'n addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn YYD, ysgol gynradd Gladstone ac yn Y Daith	Corff Llywodraethu YYD ac ysgol gynradd Gladstone
--	---

Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu YYD, ysgol gynradd Gladstone a hefyd Y Daith	Pwyllgor Rheoli Y Daith
Cynghorau Tref a Chymuned	Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol
Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg	Partneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar Bro Morgannwg
Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol	Cynghorwyr Lleol
Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)	Comisiynydd y Gymraeg
Estyn	Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ym Mro Morgannwg
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru
Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol	Undebau Llafur
Adran Drafnidiaeth y Cyngor	Cyfarwyddwyr Addysg – Yr Holl Awdurdodau Cyfagos

Gwahoddwyd ymgynghoreion i gwblhau ffurflen ar gyfer ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad y gellid ei chwblhau ar ffurf copi caled neu ar-lein trwy wefan y Cyngor yn: www.valeofglamorgan.gov.uk/centreforlearningandwellbeing

Yn sgîl goblygiadau parhaus y Coronafeirws ni chynhaliwyd sesiynau galw heibio ar gyfer rhieni a'r gymuned er mwyn cyfyngu ar y rhyngweithio rhwng staff, rhieni a'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, cafodd sianeli cyfathrebu agored eu cynnal trwy gydol yr ymgynghoriad dros y ffôn a thrwy'r e-bost. Cafodd y Cwestiynau Cyffredin eu diweddarau hefyd i adlewyrchu ymholiadau a godwyd trwy gydol y cyfnod ymgynghori (Atodiad C).

Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gan aelodau o dîm Gwasanaeth Ieuencid y Cyngor gyda sawl un o ddisgyblion ysgol gynradd Gladstone, YYD ac Y Daith i ennyn ymgysylltiad disgyblion â'r broses ymgynghori. Ceir adroddiad ar ganlyniad y sesiwn hon yn Atodiad D.

Cwestiynau Ymgynghori

Gofynnwyd i ymgynghoreion am eu barn ynglŷn â thri chwestiwn allweddol:

“Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i drawsnewid addysg arbenigol? (Nodwch eich ymateb i bob rhan isod)

A) Trwy sefydlu canolfan adnoddau newydd yn ysgol gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri o fis Medi 2021

B) Trwy ddirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles newydd dan reolaeth Ysgol Y Deri o fis Medi 2021

C) Trwy godi adeilad newydd ar gyfer disgyblion y Ganolfan Dysgu a Lles ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.”

Roedd ymgynghoreion yn gallu ymateb i bob rhan â'r ateb Ydw, Nac ydw neu Ddim barn y naill ffordd na'r llall.

Cynigiwyd y cyfle i ymgynghoreion wneud sylwadau pellach hefyd:

“Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynigion, nodwch y rhain isod.”

“Unrhyw sylwadau eraill?”

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd yn ysgrifenedig rhwng 7 Medi 2020 ac 18 Hydref 2020 eu nodi isod.

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 44 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad. Caiff y dadansoddiad o'r ymatebion i bob rhan ei nodi'n fanwl yn y tablau a'r siartiau isod.

Nodwyd na wnaeth yr holl ymgynghoreion ddarparu ymateb i bob un o'r cwestiynau a bod rhai ffurflenni heb eu cwblhau'n llawn. Yn yr achosion hyn rydym wedi derbyn yr ymatebion i'r cwestiynau y maent wedi dewis eu hateb.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddynodi eu rôl mewn perthynas â'r cynnig; roedd yr ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn.

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr ddynodi â pha ysgol y maent yn gysylltiedig (os o gwbl) mewn perthynas â'r cynnig, ac roedd ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn.


Yr ymatebion yn fanwl

Atodiad	Disgrifiad
Atodiad A	Ceir crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan ymgynghoreion statudol a'r ymateb i'r materion hynny yn Atodiad A.
Atodiad B	Ceir crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig yn Atodiad B.
Atodiad C	Mae'r ddogfen cwestiynau cyffredin wedi cael ei diweddarau i gynnwys y cwestiynau allweddol a godwyd yn ystod y sesiynau ymgysylltu (Atodiad C).
Atodiad D	Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda'r disgyblion cynrychiadol yn Gladstone, YYD ac yn Y Daith i ennyn ymgysylltiad y disgyblion â'r broses ymgynghori. Ceir adroddiad ar ganlyniad y sesiynau hyn yn Atodiad D.
Atodiad E	Fe ymatebodd Estyn yn ffurfiol i'r ymgynghoriad. Mae eu hymateb wedi'i gynnwys yn Atodiad E.
Atodiad F	Cyfeiriwyd y ddogfen ymgynghori at y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 15 Hydref 2020. Mae cofnodion y cyfarfod i'w cael yn Atodiad F.
Atodiad G	Cyflwynwyd ymateb ffurfiol gan gorff llywodraethu YYD ac mae hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad G.

Ymatebion i ran A: Sefydlu canolfan adnoddau newydd yn ysgol gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri o fis Medi 2021

Fel y dengys tabl 1 a siart 1 isod, roedd y mwyafrif o'r ymatebion (68%) o blaid rhan A. Y rhan hon gafodd y nifer uchaf o ymatebion gyda "dim barn y naill ffordd na'r llall" (27%).

Tabl 1 – Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (rhan A)						
Cyfanswm yr ymatebion (unigol) (A):	Cyfanswm yn gefnogol		Cyfanswm ddim yn gefnogol		Cyfanswm â dim barn	
Nifer	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
44	30	68%	2	5%	12	27%




Fel y dengys tabl 2 a siart 2 isod, roedd y grwpiau o ymatebwyr o blaid rhan A. Y grŵp mwyaf o ymatebwyr oedd y rhai a ddynododd mai aelodau o staff oeddent (32 o ymatebwyr – yr oedd 62.50% ohonynt o blaid rhan A), gyda rhieni'n dilyn wedyn (6 ymatebydd – 83.33% o blaid) ac ni chafwyd unrhyw ymatebion gan deidiau a neiniau. Cafwyd dau ymateb gan ddisgyblion; y naill o blaid (50%) a'r llall â dim barn y naill ffordd na'r llall (50%).

Dylid nodi bod ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn (e.e. gallent fod yn rhiant ac yn aelod o staff). Roedd ymatebwyr a ddewisodd y label “Arall” yn cynnwys ymgynghorydd gyrfaoedd ac aelod o'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

Tabl 2 – Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl rôl (rhan A)

Ymateb yn ôl rôl (A):	Cefnogol	Ddim yn gefnogol	Dim barn	Cyfanswm
Rhiant neu warcheidwad	5	1	0	6
Taid neu Nain	0	0	0	0
Disgybl	1	0	1	2
Aelod o staff	20	1	11	32
Llywodraethwr	4	0	0	4
Preswylydd Lleol	1	0	0	1
Arall	2	0	0	2




Fel y dengys tabl 3 a siart 3 isod, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr â chysylltiad ag (a) ysgol(ion) o blaid rhan A. Y grŵp mwyaf o ymatebwyr oedd y rhai â chysylltiad ag YYD (27 o ymatebwyr); yr oedd 85% ohonynt o blaid rhan A. Cafwyd ymatebion gan yr holl ysgolion yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan y cynigion. Cafwyd 12 o ymatebion gan Y Daith; pedwar o blaid (33%), un yn erbyn (8%), a saith â dim barn y naill ffordd na'r llall (58%). Cafwyd dau ymateb o ysgol gynradd Gladstone; y naill o blaid (50%) a'r llall yn erbyn (50%).

Dylid nodi bod ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn (e.e. gallent fod yn

gysylltiedig ag Y Daith ac Ysgol Y Deri). Roedd ysgolion “eraill” yn cynnwys St Richard Gwyn, St Cyres ac Ysgol Bro Morgannwg.


Tabl 3 – Dadansoddiad o’r ymatebion i’r ymgynghoriad yn ôl ysgol (rhan A)				
Ymatebion yn ôl ysgol (A):	Yn gefnogol	Ddim yn gefnogol	Dim barn	Cyfanswm
Gladstone	1	1	0	2
Ysgol Y Deri	23	0	4	27
Y Daith	4	1	7	12
Ysgolion Eraill	7	0	0	7



Ymatebion i ran B: Dirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles newydd dan reolaeth Ysgol Y Deri o fis Medi 2021

Fel y dengys tabl 4 a siart 4 isod, roedd y mwyafrif o'r ymatebion (74%) o blaid rhan B. Y rhan hon gafodd y nifer uchaf o ymatebion nad oeddent yn gefnogol (21%).


Tabl 4 – Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (rhan B)						
Cyfanswm yr ymatebion (unigol) (B):	Cyfanswm yn gefnogol		Cyfanswm ddim yn gefnogol		Cyfanswm â dim barn	
Nifer	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
43	32	74%	9	21%	2	5%



Fel y dengys tabl 5 a siart 5 isod, roedd y grwpiau o ymatebwyr o blaid rhan B. Y grŵp mwyaf o ymatebwyr oedd y rhai a ddynododd mai aelodau o staff oeddent (31 o ymatebwyr – yr oedd 70.97% ohonynt o blaid rhan B), gyda rhieni'n dilyn wedyn (6 ymatebydd - 83.33% o blaid), ac ni chafwyd unrhyw ymatebion gan deidiau a neiniau. Cafwyd dau ymateb gan ddisgyblion; y naill o blaid (50%) a'r llall â dim barn y naill ffordd na'r llall (50%).

Fel gyda'r rhan flaenorol, roedd ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn.

Tabl 5 – Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl rôl (rhan B)				
Ymateb yn ôl rôl (B):	Yn gefnogol	Ddim yn gefnogol	Dim barn	Cyfanswm
Rhiant neu warcheidwad	5	0	1	6
Taid neu Nain	0	0	0	0
Disgybl	1	1	0	2
Aelod o staff	22	8	1	31
Llywodraethwr	4	0	0	4
Preswylydd Lleol	1	0	0	1
Arall	2	0	0	2




Fel y dengys tabl 6 a siart 6 isod, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr â chysylltiad ag (a) ysgol(ion) o blaid rhan B. Y grŵp mwyaf o ymatebwyr oedd y rhai â chysylltiad ag YYD (26 o ymatebwyr); yr oedd 96% ohonynt o blaid rhan B. Cafwyd ymatebion gan yr holl ysgolion yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan y cynnig. Cafwyd 12 ymateb gan Y Daith; pedwar o blaid (33%) ac wyth yn erbyn (67%). Cafwyd dau ymateb gan Gladstone; y naill o blaid (50%) a'r llall â dim barn y naill ffordd na'r llall (50%).

Fel gyda'r rhan flaenorol, roedd ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn.

Tabl 6 – Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl ysgol (rhan B)				
Ymateb yn ôl ysgol (B):	Yn gefnogol	Ddim yn gefnogol	Dim barn	Cyfanswm
Gladstone	1	0	1	2


Ysgol Y Deri	25	0	1	26
Y Daith	4	8	0	12
Ysgolion Eraill	7	0	0	7



Ymatebion i ran C: Codi adeilad newydd ar gyfer disgyblion y Ganolfan Dysgu a Lles ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.

Fel y dengys tabl 7 a siart 7 isod, roedd y mwyafrif o'r ymatebion (91%) o blaid rhan B. Y rhan hon gafodd y nifer uchaf o ymatebion cefnogol.


Tabl 7 – Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (rhan C)						
Cyfanswm yr ymatebion (unigol) (C):	Cyfanswm yn gefnogol		Cyfanswm ddim yn gefnogol		Cyfanswm â dim barn	
Nifer	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
44	40	91%	2	5%	2	5%



Fel y dengys tabl 8 a siart 8 isod, roedd bron pob grŵp o ymatebwyr yn gyfan gwbl o blaid rhan C. Y grŵp mwyaf o ymatebwyr oedd y rhai a ddynododd eu bod yn aelodau o staff (32 o ymatebwyr – yr oedd 90.63% ohonynt yn o blaid rhan C), gyda rhieni'n dilyn wedyn (6 ymatebydd – 83.33% o blaid), ac ni chafwyd unrhyw ymatebion gan deidiau a neiniau.

Fel gyda'r rhan flaenorol, roedd ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn.

Tabl 8 - Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl rôl (rhan C)				
Ymateb yn ôl rôl (C):	Yn gefnogol	Ddim yn gefnogol	Dim barn	Cyfanswm
Rhiant neu warcheidwad	5	1	0	6
Taid neu Nain	0	0	0	0
Disgybl	2	0	0	2
Aelod o staff	29	1	2	32
Llywodraethwr	4	0	0	4
Preswylydd Lleol	1	0	0	1
Arall	2	0	0	2




Fel y dengys tabl 9 a siart 9 isod, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr â chysylltiad ag (a) ysgol(ion) o blaid rhan C. Y grŵp mwyaf o ymatebwyr oedd y rhai â chysylltiad ag YYD (27 o ymatebwyr); yr oedd 96% ohonynt o blaid rhan C. Cafwyd ymatebion gan bob un o'r ysgolion yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cynnig. Cafwyd 12 o ymatebion gan Y Daith; yr oedd 83% ohonynt o blaid. Cafwyd dau ymateb gan Gladstone; y naill o blaid (50%) a'r llall yn erbyn (50%).

Fel gyda'r rhan flaenorol, roedd ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn.

Tabl 9 - Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl ysgol (rhan C)				
Ymateb yn ôl ysgol (C):	Yn gefnogol	Ddim yn gefnogol	Dim barn	Cyfanswm
Gladstone	1	1	0	2

Ysgol Y Deri	26	0	1	27
Y Daith	10	1	1	12
Ysgolion Eraill	7	0	0	7



Casgliad

Yn dilyn ystyried yr ymatebion a gafwyd trwy gydol y cyfnod ymgynghori, mae'r Cyngor wedi ailystyried y cynnig i bennu'r effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg, y gymuned leol a threfniadau teithio.

Ansawdd a safonau mewn addysg

Byddai'r cynnig hwn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau mewn addysg. Fel a nodwyd gan ymatebwyr, mae cyfyngiadau ar yr adeiladau a'r safleoedd a ddefnyddir gan Y Daith ar hyn o bryd. Byddai'r Ganolfan Dysgu a Lles (CDAI) newydd arfaethedig yn darparu digon o le i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 gael eu haddysgu ar un safle. Byddai'r adeilad newydd arfaethedig hefyd yn rhoi'r cyfle i gynnig darpariaeth Cyfnod Allweddol 4 lawn-amser a godwyd gan Estyn yn ystod yr arolygiad diweddaraf. Byddai'r adeilad a'r safle newydd wedi'u dylunio fel eu bod yn diwallu anghenion disgyblion a byddent yn darparu'r cyfle i gyfoethogi'r cwricwlwm. Cafodd hyn ei nodi fel agwedd arbennig o gadarnhaol gan ddisgyblion yn y sesiynau ymgysylltu; roedd disgyblion yn frwdfrydig ynghylch cyfleusterau chwaraeon gwell a mannau "ymneilltuo" digonol.

Byddai'r Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd Gladstone dan reolaeth YYD yn sicrhau cymorth cyson i ddysgwyr ag anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol ledled Bro Morgannwg.

Effaith ar y gymuned

Cafodd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ei gynnal a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol trwy fwy o gyfleusterau cymunedol. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ynghylch yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Trefniadau teithio

Mae'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone wedi bod yn cael ei threialu ers mis Medi 2019. Ni fyddai'r capasiti a'r lleoliad yn cael eu newid o ganlyniad i'r cynnig hwn a fyddai felly'n cael dim effaith ar drefniadau teithio presennol.

Mae Y Daith wedi'i lleoli ar draws dau safle ar hyn o bryd gyda Chyfnod Allweddol 3 yn cael eu haddysgu ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia a Chyfnod Allweddol 4 yn cael eu haddysgu yn Y Bont-faen. Gwasanaethir Y Daith ar hyn o bryd gan 2 fws mini a 6 thacsi. Byddai'r cynnig hwn yn arwain at ostyngiad ar y cyfan mewn teithio gan ddysgwyr. Y rheswm dros hyn yw bod y lleoliad arfaethedig yn fwy canolog ym Mro Morgannwg. Mae 60% o'r disgyblion sy'n cael eu cludo i'r UCD ar hyn o bryd yn byw yn y Barri. Byddai'r siwrneiau hyn yn cael eu lleihau'n sylweddol gan y cynnig. Amlygwyd hyn gan ddisgyblion yn y sesiynau ymgysylltu fel agwedd gadarnhaol ar y cynnig.

Byddai'r goblygiadau o ran traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fydd yn ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu os bydd y cynnig hwn yn cael ei roi ar waith. Byddai asesiad trafniadaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer yr adeilad ysgol newydd. Byddai hwn yn asesu'r effaith ar y seilwaith lleol ac yn cynnwys

dadansoddiad llwybr ysgubedig i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth gyfredol ar hygyrchedd ar gyfer yr holl wasanaethau brys. Byddai'r asesiad trafnidiaeth yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ddylunio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a ganfyddir.

Holodd disgyblion a fyddai lle i storio beiciau yn y Ganolfan Dysgu a Lles gan y byddent yn hoffi beicio i'r ysgol. Pe bai'r cynnig yn mynd ymlaen, byddai teithio llesol yn ystyriaeth bwysig o fewn dyluniad y safle i roi cymorth i roi Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ar waith. Byddai lle ychwanegol i gadw beiciau a sgwteri'n cael ei ddarparu ar safle newydd yr ysgol i hybu teithio llesol i'r ysgol lle y bo'n bosibl.

Atodiad A – Crynodeb o faterion allweddol a godwyd gan ymgynghoreion statudol ac ymateb y Cyngor

Mae'r canlynol yn crynhoi'r materion allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Mae'r materion yn cyflwyno trosolwg o ymatebion ac nid ydynt wedi'u bwriadu i fod yn gofnod gair-am-air. Trefnwyd fod yr holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i Aelodau'r Cabinet.

Mater 1

Rheoli'r ganolfan adnoddau arbenigol yn ysgol gynradd Gladstone

Nododd un ymatebydd na ddylai'r ddarpariaeth gael ei rheoli gan Ysgol Gynradd Gladstone oherwydd natur arbenigol y ddarpariaeth.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Byddai'r cynnig yn arwain at sefydlu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn ffurfiol yn Ysgol Gynradd Gladstone a hithau'n cael ei rheoli gan gorff llywodraethu ac arweinwyr YYD, ysgol arbennig y Cyngor. Felly byddai'r cynnig hwn yn mynd i'r afael â phryderon yr ymatebydd.

Mater 2

Rheoli'r Ganolfan Dysgu a Lles a defnyddio'r arbenigedd presennol

Roedd yr ymatebion yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio arbenigedd presennol; yn enwedig o blith staff Y Daith sydd â phrofiad a sgiliau helaeth gyda phlant ag anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol. Mynegodd rhai ymatebwyr y byddai'n well ganddynt pe bai'r Ganolfan Dysgu a Lles newydd yn cael ei rhedeg gan Y Daith, yn hytrach nag YYD, gan mai hwy sydd â'r profiad o weithio gyda disgyblion ag anghenion ymddygiadol ychwanegol.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi gwaith caled, sgiliau a gwybodaeth y staff presennol yn Y Daith a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone yn llawn. Byddai staff a gyflogir yn Y Daith a'r Ganolfan Dysgu a Lles ar hyn o bryd yn trosglwyddo i YYD yn dilyn rhoi'r cynnig hwn ar waith. Mae cyfran fawr o'r staff presennol wedi cael eu hyfforddi i gefnogi dull sy'n deall trawma, sef y dull a ffafrir gan Fro Morgannwg o weithio gyda phlant a phobl ifanc ag anawsterau iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol. Y prif resymau dros gynnig bod y darpariaethau hyn yn cael eu rheoli gan YYD yw er mwyn sicrhau cysondeb o ran y dull hwn ledled y Fro, a chynyddu'r rhwydweithiau cymorth a'r cyfleoedd ar gyfer datblygu proffesiynol y gellir cael mynediad atynt o fewn sefydliad mwy.

Byddai ymrwymiad ac arbenigedd staff Y Daith yn galluogi'r ddarpariaeth yn y Ganolfan Dysgu a Lles newydd i adeiladu ar ddulliau llwyddiannus presennol a sicrhau parhad ar gyfer disgyblion presennol.

Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda phwyllgor rheoli Y Daith a chyrrff llywodraethu YYD ac ysgol gynradd Gladstone yn ystod y cyfnod pontio i sicrhau bod yr holl staff

ag arbenigedd perthnasol yn gallu rhoi mewnbwn i'r ddarpariaeth newydd ac, yn achos y Ganolfan Dysgu a Lles, yn gallu dylanwadu ar ddyluniad yr adeilad newydd i ddiwallu anghenion disgyblion yn y ffordd orau bosibl.

Materion 3

Holodd un ymatebydd sut i sicrhau nad yw plant sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) yn cael eu colli.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Byddai'r cyfrifoldeb am reoli darpariaeth EOTAS y Cyngor yn cael ei gadw'n ganolog gan y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau. Byddai'r adnoddau perthnasol i reoli'r gwasanaeth hwn yn cael eu cadw gan y Cyngor hefyd.

Byddai adeilad y Ganolfan Dysgu a Lles newydd yn darparu cyfleoedd ychwanegol i ehangu'r cwricwlwm presennol hefyd, yn enwedig o ran hyfforddiant galwedigaethol.

Mater 4

Holodd un ymatebydd a fyddai'r capasiti yn y Ganolfan Dysgu a Lles newydd yn ddigonol.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Byddai gan adeilad y Ganolfan Dysgu a Lles y capasiti i dderbyn 60 o ddisgyblion sy'n gyson â'r nifer bresennol ar y gofrestr yn Y Daith. Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddarpariaeth lawn-amser i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 ac fe nodwyd hyn gan Estyn yn yr arolygiad diweddaraf. Y rheswm dros hyn yw cyfyngiadau'r safle presennol yn y Bont-faen. Byddai'r adeilad newydd yn darparu'r cyfle ar gyfer darpariaeth lawn-amser yng Nghyfnod Allweddol 4.

Byddai'r safle arfaethedig ar Court Road hefyd yn darparu digon o le ar gyfer ehangu yn y dyfodol pe bai angen. Byddai hyn yn cael ei gynnwys yng nghynllun y safle ar y cyfan.

Fel rhan o strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y Cyngor, mae lleoedd ADY ychwanegol hefyd yn cael eu cynnig trwy Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore a chynyddu capasiti YYD. Mae ymgynghoriadau ar wahân yn cael eu cynnal ar y cynigion hyn.

Mater 5

Holodd un ymatebydd sut y byddai plant yn cael mynediad at ochr alwedigaethol y cwricwlwm.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Byddai'r Ganolfan Dysgu a Lles newydd arfaethedig yn arwain at fwy o gyfleoedd cwricwlaidd, yn enwedig mewn perthynas â hyfforddiant galwedigaethol. Dim ond cyfle cyfyngedig i roi hyfforddiant galwedigaethol a ddarperir gan adeiladau

presennol Y Daith, yn enwedig ar safle'r Bont-faen. Byddai'r Ganolfan Dysgu a Lles arfaethedig yn cadw rhai o'r gweithdai presennol ar safle Court Road i gyfoethogi'r cwricwlwm.

Mater 6

Pryderon y byddai cysylltiad ag Ysgol Y Deri yn arwain at fwlio a cholli hunaniaeth Y Daith

Cododd rhai disgyblion o Y Daith bryderon ynghylch y ffaith y byddai'r Ganolfan Dysgu a Lles yn rhan o YYD. Byddai'n well gan rai ymatebwyr gadw'r enw Y Daith, yn llawn neu fel rhan o enw newydd, i helpu disgyblion i fod ag ymdeimlad o barhad ac i'r ganolfan gael ei gweld fel lleoliad ar wahân i YYD.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Mae'r Ganolfan Dysgu a Lles wedi cael ei ddefnyddio fel teitl y ddarpariaeth oherwydd y farn mai dyma oedd yn adlewyrchu dull y Cyngor orau. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda staff a disgyblion i gadarnhau'r enw terfynol.

Roedd y Cyngor o'r farn y byddai nifer o fanteision yn deillio o wneud y ddarpariaeth hon yn rhan o YYD. Ystyrir mai YYD yw'r sefydliad sydd â'r profiad a'r sgiliau i roi'r dull sy'n deall trawma ar waith yn y modd mwyaf effeithiol i sicrhau parhad ledled Bro Morgannwg. O ganlyniad, byddai'r ffaith mai YYD sy'n cydlynu swyddogaeth y Ganolfan Dysgu a Lles yn golygu bod rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed yn cael y cymorth mwyaf effeithiol a'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol fel elfennau allweddol o'u haddysg. Byddai bod yn rhan o sefydliad mwy hefyd yn arwain at gydnerthedd a datblygiad proffesiynol gwell.

Er y cynigir bod y Ganolfan Dysgu a Lles yn rhan o YYD, byddai gan y Ganolfan Dysgu a Lles ei hunaniaeth a'i hadeilad ei hun.

Mater 7

Nododd corff llywodraethu YYD bryderon ynghylch faint o adnoddau staffio ac ariannol fyddai eu hangen i gyflawni'r cynnig hwn yn llwyddiannus.

Roedd gan gorff llywodraethu YYD bryderon a oedd y cyllid angenrheidiol wedi cael ei adnabod i gyflwyno'r ddarpariaeth ofynnol a pha un a oedd adnoddau staffio digonol i gyflawni'r cynnig.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai'r Cyngor yn sefydlu tîm prosiect i gefnogi'r prosiect. Byddai tîm y prosiect yn cynnwys y Pennaeth Safonau a Darpariaeth, y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles, cynrychiolwyr o Dîm Ysgolion 21^{ain} Ganrif y Cyngor, a chynrychiolwyr o Y Daith ac YYD.

Byddai tîm y prosiect yn gyfrifol am ddatblygu cynllun prosiect cynhwysfawr i gyflawni'r cynnig erbyn mis Ionawr 2023, pan fyddai adeilad y Ganolfan Dysgu a Lles newydd yn cael ei gwblhau. Byddai angen i'r cynllun prosiect ystyried:

- Datblygu'r ddarpariaeth;

- Datblygu'r strwythur staffio;
- Adnabod yr adnoddau priodol i gyflwyno'r ddarpariaeth (staffio ac ariannol); a
- Datblygu'r cynlluniau ar gyfer yr adeilad newydd.

Byddai'r prosiect yn cael ei gyflawni mewn dau gam. Byddai cam un yn canolbwyntio ar drosglwyddo rheolaeth i YYD a fyddai'n cael ei roi ar waith ar gyfer mis Medi 2021. Byddai cam dau'n canolbwyntio ar y cyfnod pontio o 18 mis nes trosglwyddo i'r adeilad newydd ar gyfer mis Ionawr 2023.

Byddai'r Cyngor yn cefnogi'r staff, y corff llywodraethu a'r pwyllgor rheoli'n llawn i sicrhau bod y cynnig yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus. Mabwysiadwyd y dull hwn yn llwyddiannus i gyflwyno addysg uwchradd rhyw cymysg yn y Barri fel rhan o'r prosiect Trawsnewid Addysg Uwchradd yn y Barri.

Byddai costau trosiannol a ysgwyddir mewn perthynas â chynllunio'r cynnig a'i roi ar waith ym mis Medi 2021 yn cael eu hariannu i ddechrau o'r Gronfa Wrth Gefn Buddsoddi mewn Ysgolion.

Byddai unrhyw ofynion cyllid ychwanegol a fyddai'n cael eu hadnabod yn amodol ar bwysau o ran costau a fyddai'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb.

Mater 8

Holodd un ymatebydd pam nad yw safle presennol Cymuned Ddysgu Penarth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer adeilad newydd y Ganolfan Dysgu a Lles?

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Nid oes digon o le ar safle Cymuned Ddysgu Penarth i ehangu'r ddarpariaeth ymhellach i wneud lle i'r Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol arfaethedig.

Cynigir y byddai adeilad newydd yn cael ei adeiladu ar safle Depo Court Road yn y Barri i wneid lle i'r Ganolfan Dysgu a Lles. Byddai digon o le yn yr adeilad hwn ar gyfer oddeutu 60 o ddisgyblion llawn-amser a byddai'n cydymffurfio â safonau'r Bwletin Adeiladu (y fframwaith ar gyfer adeiladau ysgolion).

Byddai adeilad ar wahân hefyd yn sicrhau bod gan y Ganolfan Dysgu a Lles ei hunaniaeth ei hun a fyddai'n wahanol i YYD. Byddai'r lleoliad arfaethedig hefyd yn lleihau teithiau i'r ysgol yn sylweddol a byddai'n cynyddu nifer y disgyblion sy'n gallu cerdded a beicio i'r ysgol.

Atodiad B – Crynodeb o sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig.

Mae'r adran hon yn darparu'r themâu allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol gan y rhai a oedd o blaid y cynnig. Mae'r canlynol yn cyflwyno trosolwg o ymatebion ac nid yw'n gynhwysfawr nac wedi'i fwriadu i fod yn gofnod gair-am-air. Trefnwyd fod yr holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i Aelodau'r Cabinet.

Sylw 1

Yn cefnogi'r syniad o gynyddu'r lleoedd a'r mathau o gymorth arbenigol sydd ar gael i ddisgyblion ADY yn y Fro, yn enwedig y rhai ag anghenion ICEM.

Roedd ymatebwyr yn cytuno bod angen cynyddu'r ddarpariaeth addysg arbennig yn y Fro. Roedd ymatebion hefyd yn nodi manteision bod â sawl math o ddarpariaeth ar gael yn y Fro ac y byddai hyn yn golygu bod mwy o ddisgyblion yn gallu cael cymorth na fyddent o bosibl yn bodloni'r meini prawf ar gyfer YYD ond y mae angen cymorth arbenigol arnynt serch hynny. Byddai hyn yn helpu i atal disgyblion ag anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol rhag "syrrthio drwy'r craciau" yn y system.

Sylw 2

Yn cefnogi parhad y ganolfan adnoddau arbenigol yn ysgol gynradd Gladstone dan reolaeth Ysgol Y Deri.

Nododd ymatebion y byddai hyn o fudd yn arbennig i rieni â phlant yn y ddwy ysgol gan y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei rhoi dan yr un strwythur rheoli, gan wneud y ddarpariaeth yn fwy cyson a'i gwneud yn bosibl rhannu data rhwng sefydliadau. Mae ymatebwyr yn cytuno mai YYD yw'r corff addas i oruchwylio darpariaeth ADY, gan ei bod yn meddu ar yr arbenigedd a'r adnoddau i reoli addysg arbennig yn llwyddiannus. Mae ymatebwyr yn amlygu llwyddiant y Loft & Burrow yn ysgol gynradd Gladstone hyd yma sydd wedi galluogi rhai disgyblion i ddychwelyd i addysg brif ffrwd. Maent yn nodi mai'r rheswm dros y llwyddiant hwn yw'r staff ac arweinwyr ymroddedig yn Gladstone ac y bydd goruchwyliaeth gan YYD ar y ddarpariaeth hon yn y dyfodol yn cynyddu ei chydnerthedd.

Fe hoffai rhai ymatebwyr weld darpariaeth bellach mewn ysgolion prif ffrwd ac maent yn awgrymu y gallai YYD ddarparu hyfforddiant ar gyfer athrawon mewn ysgolion eraill i gynyddu eu gallu i gefnogi disgyblion at ADY. Dylid nodi bod y Cyngor hefyd yn ymgynghori ynghylch cynnig i greu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore i gefnogi disgyblion awtistig.

Sylw 3

Yn cefnogi'r syniad mai Ysgol Y Deri fydd yn rheoli darpariaeth y Ganolfan Dysgu a Lles.

Mae ymatebwyr yn cytuno mai YYD yw'r corff addas i oruchwylio'r ddarpariaeth hon gan ei bod yn meddu ar yr arbenigedd a'r adnoddau i reoli addysg arbennig yn llwyddiannus. Mae ymatebwyr hefyd yn nodi mantais rheolaeth wedi'i chanoli ar ddarpariaeth addysgol arbenigol gan YYD gan y bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl defnyddio dull cyson a theg. Mae ymatebwyr yn amlygu'r ffaith y bydd ymrwymiad

ac arbenigedd staff Y Daith yn galluogi darpariaeth y Ganolfan Dysgu a Lles i adeiladu ar ddulliau llwyddiannus presennol a sicrhau parhad ar gyfer disgyblion presennol. Mae ymatebion yn cefnogi'r dull sy'n deall trawma ar gyfer y Ganolfan Dysgu a Lles ac yn awgrymu y byddai hyn yn helpu i ymdrin ag achosion sylfaenol ac nid dim ond ymddygiad allanol disgyblion.

Sylw 4

Yn cefnogi adeilad newydd ar gyfer y Ganolfan Dysgu a Lles.

Nododd ymatebion y byddai hyn yn darparu amgylchedd dysgu modern ar gyfer disgyblion gyda chyfleusterau addas sy'n diwallu eu hanghenion. Maent yn nodi y byddai gallu lleoli Cyfnodau Allweddol 3 a 4 ar un safle'n welliant cadarnhaol o'i gymharu â'r trefniadau presennol. Mae ymatebwyr yn teimlo'n gadarnhaol y bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl cynnig ystod fwy o weithgareddau a fydd yn cefnogi deilliannau dysgu. Roedd ymatebion gan ddisgyblion yn arbennig o frwdfrydig ynglŷn â'r ffaith y bydd Cyfnodau Allweddol 3 a 4 yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon gyda'i gilydd, rhywbeth nad ydynt yn gallu ei wneud ar hyn o bryd oherwydd y safleoedd ar wahân.

Bydd lleoliad mwy canolog y Ganolfan Dysgu a Lles (ar safle Court Road yn y Barri) yn lleihau amser teithio, gan gael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant. Mae'r safle newydd wedi'i amgylchynu gan adeiladau cyhoeddus niferus hefyd sydd o fudd i brofiadau dysgu; gan gynnwys y Ganolfan i Deuluoedd, Stadiwm Parc Jenner, yr Orsaf Heddlu a'r YMCA.

Atodiad C – Cwestiynau cyffredin.

Mae'r adran hon yn darparu cwestiynau cyffredin wedi'u diweddarau mewn perthynas â'r cynnig.

Beth yw graddfa amser fwriadedig y datblygiad?

Y bwriad yw y byddai'r cynnig yn cael ei roi ar waith erbyn mis Medi 2021. Byddai gwaith i adeiladu'r ysgol newydd ar safle Depo Court Road yn y Barri'n dechrau erbyn mis Rhagfyr 2021 ac yn cael ei gwblhau erbyn mis Ionawr 2023.

Sut fyddai goblygiadau posibl ar gyfer cludiant yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynnig hwn?

Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor fyddai'n gyfrifol am y broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi a byddai asesiad trafnidiaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio. Byddai unrhyw oblygiadau a gâi eu hadnabod yn cael eu hystyried yn nyluniad yr adeilad newydd. Byddai'r contractwr yn cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer yr adeilad newydd.

Pwy fyddai'n rheoli'r broses o adeiladu'r adeilad ysgol newydd?

Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor fyddai'n gyfrifol am reoli'r broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi gan ddefnyddio fframwaith SEWSCAP. Fframwaith adeiladu yw SEWSCAP a ddefnyddir gan 16 o awdurdodau lleol ac sy'n darparu Contractwyr sydd wedi cyn-gymhwyso ac sydd â phrofiad addas i gyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, ac adeiladau cyhoeddus eraill, sy'n gysylltiedig â phrosiectau i godi adeiladau newydd ac adnewyddu adeiladau presennol y mae eu gwerth yn fwy nag £1.5 miliwn. Byddai rhaglen ymgysylltu'n cael ei llunio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu ynghylch y cynnydd ac yn gallu bwydo i mewn i'r broses ddylunio. Byddai cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyngor, y contractwr a'r ysgol.

Sut fyddem ni'n cael ein cynnwys trwy gydol y broses ddylunio?

Byddai rhaglen ymgysylltu'n cael ei llunio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu ynghylch cynnydd ac yn gallu bwydo i mewn i'r broses ddylunio. Byddai cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyngor, y contractwr a'r ysgol. Gellir anfon unrhyw adborth neu feddyliau at Dîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn:

21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk

Atodiad D – Ymgynghori a fu gyda phobl ifanc.

Y Daith - 07.10.2020

Blwyddyn 9

2 Berson Ifanc

1. A ydych yn cefnogi'r cynnig i drawsnewid addysg arbenigol? (Nodwch eich

ymateb i bob rhan isod)

a) Drwy sefydlu canolfan adnoddau newydd yn ysgol gynradd Gladstone yn gysylltiedig ag

Ysgol y Deri o fis Medi 2021

Ni gyflwynwyd unrhyw feddyliau ar CAA Ysgol Gynradd Gladstone gan y bobl ifanc.

b) Drwy roi'r gorau i'r Daith a sefydlu Canolfan Ddysgu a Lles newydd

dan reolaeth Ysgol y Deri o fis Medi 2021

Mynegodd y bobl ifanc rai pryderon am gael eu cysylltu ag Ysgol y Deri. Roedd y bobol ifanc yn poeni am y stigma o gael eu brandio yn 'ysgol arbennig'.

Cytunodd y bobl ifanc fod gan staff YYD yr hyfforddiant iawn i gefnogi pobl ifanc yn briodol a gallai hyn fod o fudd iddynt yn y Daith gan fod angen mwy o gymorth ar rai pobl ifanc nag eraill.

c) Drwy adeiladu adeilad newydd ar gyfer y Ganolfan Dysgu a Lles ar

safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.

Esboniodd y bobl ifanc nad oedd ganddynt y cyfleusterau ar gael yn Fferm Ymddiriedolaeth Amelia ar hyn o bryd i ymarfer corff nac i gymryd rhan mewn sesiynau chwaraeon er mwyn helpu i "losgi egni". Egluron nhw mai dyma'r brif broblem gyda'u lleoliad presennol gan nad ydynt yn "gallu mynd mas". Dywedodd y bobl ifanc a staff hefyd nad oes llawer o le yn eu hadeilad presennol a bod llawer o'u hystafelloedd yn amlbwrpas ar hyn o bryd. Mae hyn yn arwain at rai anawsterau pan fydd angen ardal seibiant neu ystafelloedd at ddibenion eraill.

Fe wnaethom esbonio y byddai gan yr adeilad newydd yn y Barri ardal chwaraeon newydd a rhagor o ofod dan do i gynnwys ystafelloedd seibiant ac ardaloedd llesiant. Dwedodd y bobl ifanc y byddent yn hoffi cael neuadd chwaraeon dan do ar gyfer yr adegau o dywydd gwael, yn ogystal â chyfleusterau awyr agored i chwarae pêl-droed, rygbi a phêl-fasged.

Cytunodd y bobl ifanc y byddai'n llawer haws iddynt os nad oedd angen teithio i'r fferm neu'r Bont-faen bob dydd. Dywedon nhw y byddent yn gallu beicio i'r ysgol ac y byddai hynny'n well ganddynt. Gofynnodd y bobl ifanc p'un a fyddai storfa beiciau ddiogel ar gael iddynt ei defnyddio.

Gofynnodd y bobl ifanc hefyd am drefniadau teithio ar gyfer y rheiny nad oeddent yn gallu beicio i'r safle gan ofyn am dacsis a bysus mini. Holodd aelodau staff a allai fod gan y Daith eu minibysus eu hunain i osgoi gorfod eu llogi. Byddai hyn yn gwneud teithio ar siwrneiau yn haws yn ogystal â chasglu pobl ifanc ar gyfer ysgol. Gofynnodd nhw a fyddai hyn yn rhan o system dannwydd y Fro.

Mae'r bobl ifanc yn credu y byddai'n wych gallu helpu gyda'r adeiladu a chael y cyfle i helpu i adeiladu'r ysgol a dysgu sgiliau newydd.

Gofynnodd y bobl ifanc hefyd p'un a allai fod cyfle i gael hyfforddiant sgiliau bywyd eraill a bod profiad gwaith ar waith megis mecaneg/diffodd tân. Awgrymodd yr athrawon gael cynghorydd gyrfaoedd llawn amser i helpu gyda phobl ifanc pan fyddant yn gadael y Daith.

2. Os hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen i'r cynigion, rhowch eu manylion isod.

Dywedodd y bobl ifanc nad oeddent yn hoffi'r enw Canolfan Dysgu a Lles. Roedd yn rhy hir medden nhw ac roeddent yn hoff o'r enw Y Daith. Ni chynigiwyd enw gan y bobl ifanc fodd bynnag.

3. Unrhyw sylwadau eraill?

Roedd gan y bobl ifanc rywfaint o bryderon ynghylch y newidiadau i'w diwrnod a allai ddod gyda'r adeilad newydd. Dywedodd y bobl ifanc eu bod yn hoffi eu hathrawon presennol a'u trefn ddyddiol achos eu bod yn nabod yr athrawon ac yn hapus gyda strwythur eu diwrnod ysgol. Maent hefyd yn hoffi aros mewn un ystafell ddosbarth gyda'r un athro ar gyfer y diwrnod ysgol gan nodi "ei bod yn dda cael un lle" i'ch lleoli ar gyfer y diwrnod ysgol.

1. A ydych yn cefnogi'r cynnig i drawsnewid addysg arbenigol? (Nodwch eich

ymateb i bob rhan isod)

- a) Drwy sefydlu canolfan adnoddau newydd yn ysgol gynradd Gladstone yn gysylltiedig ag

Ysgol y Deri o fis Medi 2021

Ni chyflwynwyd unrhyw syniadau ar CAA Ysgol Gynradd Gladstone gan y bobl ifanc.

- b) Drwy roi'r gorau i'r Daith a sefydlu Canolfan Ddysgu a Lles newydd

dan reolaeth Ysgol y Deri o fis Medi 2021

Cytunodd y bobl ifanc a'r staff y bydd o fudd gweithio gydag YYD. Dywedodd y bobl ifanc ei bod yn bwysig bod gan staff yr hyfforddiant iawn i allu helpu pob person ifanc, ni waeth pa lefel o gymorth sydd ei angen. Cytunodd staff y byddai'n wych cael cymorth YYD i wneud yn siŵr bod gan bawb yr hyfforddiant gorau.

- c) Drwy godi adeilad newydd ar gyfer y Ganolfan Dysgu a Lles ar

safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.

Mae'r bobl ifanc yn llawn cyffro o gael ardal chwaraeon awyr agored ar gyfer pêl-fasged a pêl-droed. Awgrymon nhw y gallai edrych yn debyg i'r gosodiad chwaraeon ym Mharc Gladstone. Mae'r bobl ifanc wedi gofyn a fyddai campfa a chyfarpar bocsi o'r gael.

Awgrymodd y bobl ifanc hefyd gael 'ystafell ymlacio' gyda chonsolau gemau a soffas lle gallant ymlacio.

Awgrymodd staff fod angen ystafell seibiant benodedig i bobl ifanc ei defnyddio pan fo angen iddynt ymdawelu neu gael seibiant. Ar hyn o bryd ystafell amlbwrpas yw eu hystafell seibiant gan nad oes digon o le ac mae hyn yn achosi trafferthion. Cytunodd y bobl ifanc hefyd fod hyn yn syniad da. Gofynnodd staff p'un a fyddai ystafelloedd pwrpasol ar gael i gyngor yr ysgol gyfarfod ac i nyrs yr ysgol.

Ar hyn y bryd nid oes ardal staff bwrpasol yn lleoliad y Daith chwaith ac nid oes toiledau ar wahân i ddisgyblion a staff ar y fferm. Mae staff a phobl ifanc wedi dweud yr hoffent doiledau ar wahân.

Awgrymodd y bobl ifanc hefyd gael ffreutur ddigon mawr i bawb fel na fydd angen iddynt fwyta yn yr ystafelloedd dosbarth.

Dangoswyd i'r bobl ifanc sut olwg sydd ar Ysgol y Deri. Dywedon nhw y byddai'n wych cael adeilad newydd da a chyfleusterau modern.

Gofynnodd y bobl ifanc am y posibilrwydd o gael storfa beiciau yn yr ysgol newydd er mwyn gallu beicio i'r ysgol. Soniodd y bobl ifanc a'r aelodau staff hefyd am y cyfle i gael bysus mini ar gael iddynt i helpu gyda theithiau ysgol a chodi'r bobl ifanc ar gyfer ysgol pan nad ydyn yn byw o fewn pellter beicio.

Dywedodd y bobl ifanc ei bod yn syniad da cael yr ysgol yn y Barri fel y bydd yr amser teithio'n fyrrach ac mae'n arbed iddynt orfod teithio i'r Bont-faen neu'r fferm bob dydd. Ychwanegodd y bobl ifanc hefyd fod teithio i'r Daith yn brofiad annymunol yn enwedig pan fo angen gwisgo mygydau.

Gofynnodd y bobl ifanc p'un a allai gweithdai fod ar gynnig i bobl ifanc ddysgu sgiliau gwaith coed ac ardal gegin fawr gyda'r cyfle i ddysgu sgiliau coginio. Roedd y bobl ifanc yn llawn cyffro gyda'r cyfle i gyfrannu at waith adeiladu'r ysgol a dysgu sgiliau newydd.

2. Os hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen i'r cynigion, rhowch eu manylion isod.

Dywedodd y bobl ifanc fod yr enw Canolfan Dysgu a Lles yn rhy hir. Dywedon nhw fod CDLI yn swinio'n well ac y bydd pobl yn debygol o dalfyrru'r enw i hynny.

3. Unrhyw sylwadau eraill?

Dywedodd y bobl ifanc eu bod yn gwneud llawer o waith ar iechyd meddwl a bod y gwersi hynny yn bwysig iawn. Dywedodd y bobl ifanc ei bod yn bwysig cael y gwersi hynny gan y gallant ddysgu strategaethau i reoli sefyllfaoedd sy'n peri straen.

Ysgol Y Deri - 13.10.2020

8 Person Ifanc - blynyddoedd cymysg

1. A ydych yn cefnogi'r cynnig i drawsnewid addysg arbenigol? (Nodwch eich

ymateb i bob rhan isod)

a) Drwy sefydlu canolfan adnoddau newydd yn ysgol gynradd Gladstone yn gysylltiedig ag

Ysgol y Deri o fis Medi 2021

Cytunodd pobl ifanc yn YYD ei bod yn syniad gwych gweithio gyda phobl ifanc oedran ysgol gynradd. Dywedodd un person ifanc "gallan nhw ddysgu sgiliau bywyd ar gyfer pan fyddan nhw'n hŷn".

b) Drwy roi'r gorau i'r Daith a sefydlu Canolfan Ddysgu a Lles newydd

dan reolaeth Ysgol y Deri o fis Medi 2021

Cytunodd y bobl ifanc fod angen i bob athro gael yr un lefel o hyfforddiant er mwyn i bob person ifanc ar draws y Fro gael y lefel hon o gymorth yn yr ysgol. Cytunodd y bobl ifanc o YYD fod athrawon yn wych yn cefnogi pobl ifanc yn YYD ac y dylai yr holl athrawon ledled y Fro gael yr un cyfleoedd hyfforddiant fel eu hathrawon a'u staff.

Awgrymwyd ganddynt rai syniadau sy'n gweithio yn YYD a allai o bosib helpu yn CDLI, megis dosbarthiadau maint llai gyda staff ychwanegol i sicrhau bod gan bobl ifanc fwy o amser gydag athrawon yn ystod y gwersi ynghyd â lefel uwch o gymorth. Cytunodd y bobl ifanc hefyd fod angen yr hyfforddiant gorau ar yr holl athrawon i sicrhau y gallant gynnig y cymorth sydd ei angen ar bobl ifanc i ddysgu'n briodol ac i'w helpu i ddeall sut i helpu pawb ni waeth faint o gymorth sydd ei angen arnynt. Disgrifiodd pob person ifanc yn yr ymgynghoriad y berthynas sydd ganddynt â'u hathrawon ac ymysg y buddion roedd bod pobl ifanc yn "teimlo wedi eu grymuso i siarad â staff ac athrawon." Gwnaethant esbonio fod perthynas da ag athro yn hanfodol ar gyfer dysgu a lles sy'n arwain at "bawb yn teimlo wedi eu gwerthfawrogi".

Peth arall a awgrymwyd gan y bobl ifanc oedd sut y mae YYD yn gwneud addysg i fod yn addas i'r unigolyn ac nid i'r dosbarth cyfan. Dywedon nhw fod hyn yn gweithio yn dda iawn ac yn helpu i sicrhau y diwallir anghenion pob person ifanc gan nodi "mae'n helpu i'n gwneud ni gyd i deimlo'n bwysig".

Dywedodd y bobl ifanc ei bod yn bwysig iawn i'r ysgol newydd ac YYD fod mewn cyswllt yn rheolaidd i sicrhau bod cysylltiadau cyfathrebu rhwng y ddwy ysgol megis cyfarfodydd i wneud yn siŵr mai'r gwaith gorau sy'n cael ei gyflawni ar gyfer y bobl ifanc fel bo'r "amgylchedd yn teimlo'n ddiogel".

c) Drwy godi adeilad newydd ar gyfer y Ganolfan Dysgu a Lles ar

safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.

Cytunodd yr holl bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad fod gofod awyr agored i ymarfer corff a gwneud chwaraeon yn hanfodol ar gyfer llesiant. Awgrymodd pobl ifanc hefyd fod Ysgol Goedwig yn gyfle buddiol i helpu pobl ifanc i ddysgu sgiliau newydd a'i bod yn ffordd wych o fod tu allan i'r ystafell ddosbarth ond yn dal yn addysgol.

Esboniodd y bobl ifanc pa mor bwysig yw gofod yn yr ysgol. Dywedon nhw fod y cyfle i allu defnyddio ystafelloedd seibiant yn hanfodol ar gyfer pobl ifanc er mwyn iddyn nhw allu cael seibiant o sefyllfaoedd sy'n achosi straen ac i ymdawelu. Mae hyn hefyd yn cynnig man preifat i bobl ifanc siarad ag athrawon os oes angen. Nodwyd hefyd fod pobl ifanc yn mynd i ystafelloedd llai lle mae disgyblion yn cael eu dethol yn benodol.

Dywedodd y bobl ifanc hefyd ei bod yn bwysig cael ardaloedd i bobl ifanc ddysgu sgiliau bywyd newydd megis coginio. Defnyddiodd y bobl ifanc fusnes bwyd YYD fel enghraifft, maent yn paratoui bwyd i werthu i adeiladwyr lleol. Mae'r bobl ifanc wedi dweud bod y cyfle hwn wedi bod yn wych i'w helpu i ddysgu sgiliau newydd megis rheoli arian a chael profiadau bywyd go iawn, yn ogystal â phrofiad gwaith.

2. Os hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen i'r cynigion, rhowch eu manylion isod.

Ni chyflwynwyd newidiadau i'r cynigion gan y bobl ifanc.

3. Unrhyw sylwadau eraill?

Esboniodd y bobl ifanc fod ganddynt yn YYD hyfforddwr dysgu a chynghorwyr sy'n dod i'r ysgol. Cytunodd pawb fod gweld yr hyfforddwr dysgu a'r cynghorwyr yn fuddiol iawn ac yn cynnig y cyfle iddyn nhw gael cymorth bob amser, yn ogystal â chynnig man i bob ifanc "allu mynegi eu hunain". Dywedodd y bobl ifanc hefyd eu bod yn cymryd rhan mewn sesiynau 'ymarfer corff' sy'n eu galluogi i wneud ioga, bocsi, rhedeg a therapi corfforol. Dywedodd y bobl ifanc fod hyn yn ddefnyddiol iawn iddyn nhw a'u bod yn mwynhau ei wneud.

Ysgol Gynradd Gladstone - 14.10.2020

Blwyddyn 6 - 10 person Ifanc

1. A ydych yn cefnogi'r cynnig i drawsnewid addysg arbenigol? (Nodwch eich

ymateb i bob rhan isod)

- a) Drwy sefydlu canolfan adnoddau newydd yn ysgol gynradd Gladstone yn gysylltiedig ag

Ysgol y Deri o fis Medi 2021

Roedd mwyafrif helaeth o bobl ifanc Ysgol Gynradd Gladstone o blaid sefydlu canolfan adnoddau newydd gan amlygu y buddion y mae pobl ifanc yn eu cael ar hyn o bryd pan fyddant yn myd i'r 'Lofft' a'r 'Burrow'. Ymhlith buddion y lofft yr oedd cefnogi pobl ifanc a allai ei chael hi'n anodd dysgu ac sydd angen cymorth ychwanegol, fodd bynnag nodwyd hefyd fod buddion i bobl ifanc fanteisio ar addysg prif ffrwd am gyfnodau byr cyn cael eu symud pan fo'n briodol. Esboniodd myfyrwyr fod y 'Burrow' yn darparu ar gyfer babanod gydag anghenion ychwanegol sy'n rhoi cymorth i bobl ifanc yn adran babanod cyn iddyn nhw symud i'r 'Lofft' yn adran y plant iau.

- b) Drwy roi'r gorau i'r Daith a sefydlu Canolfan Ddysgu a Lles newydd

dan reolaeth Ysgol y Deri o fis Medi 2021

Cytunodd disgyblion Ysgol Gynradd Gladstone y byddai ysgol addysg arbennig newydd o fudd mawr i bobl ifanc ac y byddai llwybr clir o fabanod i ysgol uwchradd gyda phobl ifanc yn cael eu cefnogi yn yr un modd.

- c) Drwy godi adeilad newydd ar gyfer y Ganolfan Dysgu a Lles ar

safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.

Roedd rhai disgyblion yn ymwybodol o Ysgol y Deri a gwnaethant gytuno y byddai adeilad newydd CDLI tebyg i hyn o fudd i bobl ifanc.

2. Os hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen i'r cynigion,

rhowch eu manylion isod.

Ni chyflwynwyd newidiadau i'r cynigion gan y bobl ifanc.

3. Unrhyw sylwadau eraill?

Cyflwynodd disgyblion gipolwg ar sut mae'r ysgol yn cefnogi iechyd meddwl a lles disgyblion ar hyn o bryd. Amlygwyd strategaethau sy'n hyrwyddo 'meddylfryd twf' pan fo disgyblion yn cael eu hannog i ystyried "nid na alli di wneud e, ond yn hytrach fe fyddi di'n gallu ei wneud e yn y dyfodol". Nododd disgyblion hefyd fuddion 'y Cwtch' sy'n ganolfan llesiant yn yr ysgol lle mae disgyblion yn cymryd rhan yn 'Cylch Ffrindiau' sy'n lle y gall pobl ifanc "wneud ffrindiau, bwyta bisgedi a chael hwyl" ynddo, ac mae hyn yn helpu i hyrwyddo hunan-barch a "siarad am sut rwy't ti'n teimlo". Amlygodd y disgyblion hefyd fuddion 'ci therapi' yr ysgol, modd defnyddio fidget a chael tri athro y gall pobl ifanc siarad â nhw am sut maent yn teimlo. Mae strategaethau ar waith hefyd i bobl ifanc lenwi jariau gyda phapur ar ôl iddyn nhw fynegi sut y maent yn teimlo a all ddangos i'r athrawon p'un a oes unrhyw broblemau parhaus ac mae'r rhain yn ddienw pan fo'n addas.

Atodiad E – Ymateb gan Estyn

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Crynodeb/Casgliad

Mae'r awdurdod lleol wedi cyfrif yn briodol am reoliadau Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno ei gynigion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg arbennig ym Mro Morgannwg er mwyn bodloni'r galw a ragwelir yn y dyfodol a bodloni anghenion dysgwyr agored i niwed orau. Mae'r cynnig yn cynnwys strategaeth dri phwynt, glir, i wireddu uchelgeisiau'r awdurdod lleol.

1. Sefydlu Canolfan Dysgu a Lles newydd i ddisodli Y Daith, sef uned cyfeirio disgyblion y Cyngor (UCD)
2. Sefydlu canolfannau adnoddau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd i sicrhau bod dysgwyr yn gallu manteisio ar addysg brif ffrwd; a
3. Chynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Y Deri (YYD), sef ysgol arbennig y Cyngor, i fodloni'r galw a ragwelir am addysg arbennig.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnig achos clir ar sail tystiolaeth berthnasol i gefnogi pob un o'r tri cham strategol yn y cynnig. Er enghraifft, dylai cynlluniau i newid yr uned cyfeirio disgyblion presennol am gyfleuster pwrpasol newydd o dan reolaeth Ysgol y Deri arwain at gyfleusterau, profiadau addysgol a deilliannau gwell i ddysgwyr. Mae'r cynnig yn nodi bod y treial i gynnwys canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone wedi bod yn llwyddiannus.

Ym marn Estyn, bydd y cynnig, ar y lleiaf, yn cynnal, ac yn debygol o wella, y ddarpariaeth addysgol bresennol ym Mro Morgannwg.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynnig yn dangos bod yr awdurdod lleol wedi ymchwilio i amrywiaeth o opsiynau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg arbennig ym Mro Morgannwg er mwyn bodloni'r galw a ragwelir yn y dyfodol a bodloni anghenion dysgwyr agored i niwed orau. Mae wedi darparu sail resymegol glir ar gyfer pob agwedd ar y strategaeth dri phwynt yn yr opsiwn y mae'n ei ffafrio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweledigaeth gyffredinol glir ar gyfer datblygu darpariaeth AAA yn yr awdurdod, gan gynnwys dull addysgegol sy'n cael ei ffafrio i fodloni anghenion dysgwyr
- Ymagwedd gyson at ddarpariaeth addysg arbennig ym Mro Morgannwg.
- Byddai'r Ganolfan Dysgu a Lles a'r canolfannau adnoddau arbenigol yn elwa o'r medrau, y wybodaeth a'r cyfleusterau arbenigol yn Ysgol Y Deri
- Gwell cyfleusterau ac amgylcheddau dysgu i ddysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gwell mynediad at gyfleusterau awyr agored, fel ardal gemau lluosog
- Gwell mynediad at gymorth arbenigol i staff a dysgwyr
- Mynediad at brofiadau dysgu mewn ysgol brif ffrwd i ddysgwyr yn y ganolfan adnoddau arbenigol
- Byddai'r Ganolfan Dysgu a Lles yn cynnig cymorth a darpariaeth i ddysgwyr ag anghenion mor sylweddol na all Y Daith na darparwyr eraill eu bodloni ar hyn o bryd. Nid oes gan y Cyngor unrhyw ddarpariaeth arbenigol ar gyfer y dysgwyr hyn ar hyn o bryd, felly cânt eu gosod y tu allan i'r sir at ddibenion addysgol yn aml; mae cost sylweddol ynghlwm.

Fodd bynnag, dywed y cynnig hefyd *'na fu'n bosibl grwpio disgyblion CA3 ac CA4 Y Daith i gynnis parhad di-dor. Byddai'r adeilad (y Ganolfan Dysgu a Lles) a'r safle newydd yn sicrhau bod hyn yn bosibl.'* Nid yw'n glir o'r cynnig p'un a yw'r awdurdod yn ystyried y byddai darpariaeth uned cyfeirio disgyblion yn y dyfodol yn cynnig lleoliad parhaol i ddysgwyr.

Fe wnaeth yr awdurdod lleol ystyried ac amlinellu'r buddion a'r risgiau ar gyfer dau opsiwn arall. Mae wedi rhoi sail resymegol briodol ar gyfer peidio â mynd ar drywydd y naill na'r llall o'r rhain.

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried y goblygiadau i gludiant yn gysylltiedig â safle Ysgol Gynradd Gladstone yn briodol. Dywed yr awdurdod lleol y byddai asesiad llawn o gludiant yn cael ei gynnal fel rhan o broses ddylunio'r adeilad ysgol newydd ar gyfer y Ganolfan Dysgu a Lles yn y Barri, pe bai'r cynnig hwn yn cael ei dderbyn. Felly, nid yw'r awdurdod lleol wedi ymgymryd ag asesiad llawn o gludiant ar gyfer pob rhan o'r cynnig. Yn ogystal, er bod y cynnig yn nodi ffyrdd posibl y gallai'r awdurdod lleol gefnogi teithio llesol yn y Ganolfan Dysgu a Lles, nid yw'n cynnig manylion ffeithiol ynghylch y trefniadau posibl hyn yn y dyfodol.

Mae'r awdurdod lleol yn nodi nad yw trefniadau derbyn arferol yn berthnasol i'r lleoliadau addysgol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cynnig hwn. Ni fydd y Ganolfan Dysgu a Lles a'r canolfannau adnoddau arbenigol yn cystadlu ag ysgolion lleol ac nid yw'r cynnig hwn yn debygol o gael effaith ar drefniadau derbyn na lleoedd dros ben mewn ysgolion eraill. Er nad yw'r cynnig yn cynnwys rhagolygon penodol ar gyfer nifer y disgyblion yn Ysgol y Deri yn y dyfodol, mae nifer y disgyblion wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf. Ymddengys y byddai hyn yn ategu haerriad yr awdurdod lleol bod cynnydd yn y galw am ddarpariaeth anghenion arbennig ym Mro Morgannwg. Mae'r cynnig yn cyfeirio am yr angen, ar adegau, am addysg cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau AAA. Mae'n datgan y byddai darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yn y Ganolfan Dysgu a Lles a'r canolfannau adnoddau arbenigol, pan fo'i hangen. Fodd

bynnag, nid yw'r cynnig yn amlinellu yn glir os fyddai'r profiadau addysgu a dysgu hynny yn hollol gydradd â'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg.

Mae'r awdurdod lleol yn amlinellu trefniadau ar gyfer dirprwyo cyllid ac ar gyfer arwain a rheoli staff yn glir yn y cynnig.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth, a'r arweinyddiaeth a rheolaeth yn fanwl. Hefyd, mae wedi ystyried deilliannau arolygiadau perthnasol diweddar Estyn yn briodol.

Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu sail resymegol addysgol glir ar gyfer newid. Mae hyn yn cynnwys rhannu addysgeg a fu eisoes yn llwyddiannus wrth sicrhau cynnydd cadarn i ddysgwyr a gwell cyfleusterau dysgu. Hefyd, dylai'r trefniadau arfaethedig sicrhau gwell mynediad at ddarpariaeth arbenigol ar gyfer nifer fwy o ddisgyblion. Mae'r cynnig yn cynnwys sail resymegol gadarn ar gyfer effaith bosibl y cynnig ar les disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn gwerthuso safonau a chynnydd disgyblion mewn lleoliadau presennol yn fanwl.

Mae'r trefniadau arfaethedig yn debygol o arwain at gyfleoedd dysgu proffesiynol gwell i staff.

Nid yw'r awdurdod lleol wedi ymgymryd ag asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Fodd bynnag, yn ei gynnig, mae'n datgan y bydd asesiad o'r fath yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ymgynghori ac y caiff yr asesiad ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen. Mae wedi ymgymryd ag Asesiad priodol o'r Effaith ar y Gymuned ac yn dod i'r casgliad y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol yn gyffredinol.

Atodiad F – Cofnodion y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar y cynnig

Y PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Mae'r recordiad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant (15 Hydref 2020) ar gael yma: <https://www.youtube.com/watch?v=klk36by7C0w&feature=youtu.be>

131 CYNNIG I SEFYDLU CANOLFAN DYSGU A LLES NEWYDD A CHANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL YN YSGOL GYNRADD GLADSTONE A FYDDAI'N CAEL EI RHEOLI GAN YSGOL Y DERI O FIS MEDI 2021 (CDS) -

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif, a diben yr adroddiad oedd hysbysu'r Pwyllgor ynghylch cynnig y Cyngor i drawsnewid addysg arbenigol ym Mro Morgannwg, a chael eu hadborth i fod yn rhan o adroddiad ymgynghori a fyddai yn ei dro'n cael ei ystyried gan y Cabinet yn dilyn cwblhau'r ymarfer ymgynghori.

Rhoddodd y Swyddog wybod bod y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, ar 7 Medi 2020, wedi lansio'r ymgynghoriad ar y cynnig i sefydlu Canolfan Dysgu a Lles a chanolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone a fyddai'n cael ei rheoli gan Ysgol Y Deri o fis Medi 2021. Roedd y ddogfen ymgynghori, a oedd wedi'i chynnwys ynghyd â'i hatodiadau yn Atodiad A wrth yr adroddiad, wedi cael ei hanfon at ymgynghoreion penodedig fel a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, ac roedd yn nodi cynnig y Cyngor i drawsnewid addysg arbennig trwy;

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn ysgol gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri o fis Medi 2021;
- dirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles newydd dan reolaeth Ysgol Y Deri o fis Medi 2021; a
- chodi adeilad newydd ar gyfer disgyblion y Ganolfan Dysgu a Lles ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.

Darparodd y Swyddog ychydig mwy o fanylion am bob elfen o'r cynnig, y byddai'r ymgynghoriad arno'n dod i ben ar 18 Hydref 2020. Roedd y Cyngor wedi gofyn i ymgynghoreion nodi a oeddent yn cefnogi, yn gwrthwynebu ynteu heb unrhyw farn mewn perthynas â'r tair elfen wahanol o'r cynnig, a dywedodd y Swyddog, o'r ymatebion a oedd wedi dod i law hyd yma, fod y mwyafrif llethol wedi bod yn gadarnhaol ar draws pob un o'r tair elfen gyda dim ond pedwar mater allweddol wedi'u nodi, sef;

- gwrthwynebu colli sgiliau ac arbenigedd y staff presennol yn Y Daith;
- sicrhau bod disgyblion sydd mewn Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol (EOTAS) yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynnig;
- na fyddai capasiti'r safle arfaethedig yn ddigonol o bosibl; a
- bod rhai disgyblion wedi bod yn ansicr ynghylch enw arfaethedig yr ysgol.

Aeth y Swyddog ymlaen i ymdrin â phob pryder yn ei dro, gan sicrhau'r Aelodau y byddai'r holl staff yn Y Daith yn trosglwyddo i'r Ganolfan Dysgu a Lles newydd o fis Medi 2021, y byddai'r ddarpariaeth EOTAS yn aros dan reolaeth y Cyngor ac adnoddau'n cael eu cadw'n ganolog, bod y capasiti arfaethedig o 60 o ddisgyblion yn

gyson â'r nifer sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd yn Y Daith ond bod y safle'n fawr ac y gellid ehangu'r Ganolfan pe bai angen, ac er y byddai'r Ganolfan arfaethedig yn rhan o Ysgol Y Deri y byddai ganddi ei hadeilad, ei henw a'i hunaniaeth ei hun.

Cafwyd trafodaeth wedyn, a'r consensws ymhlith yr Aelodau oedd bod hwn yn gynllun rhagorol a oedd i'w gymeradwyo a'i ganmol. A hithau wedi cael caniatâd i siarad, fe ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod datblygu Canolfan Dysgu a Lles wedi bod yn uchelgais hirsefydlog ac fe amlygodd bwysigrwydd cydnabod nad oedd pob plentyn yr un fath, a chan hynny bod angen darparu mwy o gymorth ac arbenigedd yn y maes hwn.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach gan yr Aelodau, ar ôl hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) FOD y Pwyllgor yn nodi'r ddogfen ymgynghori a'r atodiadau perthnasol ar y cynnig i sefydlu Canolfan Dysgu a Lles a chanolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone a fyddai'n cael ei rheoli gan Ysgol Y Deri o fis Medi 2021.

(2) FOD y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig a bod eu hadborth yn cael ei ystyried gan y Cabinet fel rhan o'r adroddiad ymgynghori a fyddai'n cael ei ddatblygu yn dilyn cwblhau'r ymarfer ymgynghori.

Rhesymau dros yr Argymhellion

(1) Sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor ynghylch y cynnig.

(2) Sicrhau bod adborth gan y Pwyllgor yn cael ei ystyried gan y Cabinet fel rhan o'r adroddiad ymgynghori.

Atodiad G – Ymateb gan gorff llywodraethu Ysgol Y Deri

Eich Enw Llawn: *B T Exell ar ran y Corff Llywodraethu*

Cod post: *CF64 2TP*

Llywodraethwr* *X*

A fydddech cystal â chadarnhau â pha ysgol(ion) yr ydych yn gysylltiedig:

Ysgol Y Deri

1. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i drawsnewid addysg arbenigol? (Nodwch eich ymateb i bob rhan isod)

A) Trwy sefydlu canolfan adnoddau newydd yn ysgol gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri o fis Medi 2021

Ydw X

Nac ydw

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Eglurwch pam:

Mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol, dros y flwyddyn flaenorol, bod yr ymwneud gan YYD wedi arwain at sefydlu darpariaeth lwyddiannus yn ysgol Gladstone gyda manteision dynodedig i ddisgyblion a staff. Byddai ymgorffori'r ddarpariaeth hon yn ffurfiol o fewn trefniadau arwain a llywodraethu YYD yn dwyn manteision mwy i'r ddau sefydliad, gobeithio.

B) Trwy ddirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles newydd dan reolaeth Ysgol Y Deri o fis Medi 2021

Ydw X

Nac ydw

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Eglurwch pam:

Mae'r llywodraethwyr yn cydnabod y camau breision ymlaen a wnaed trwy gynllun gweithredu Bro Morgannwg ar gyfer iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol ac o fewn y cynllun hwn, yr ymwneud gan y Gwasanaeth Ymgysylltu ar hyn o bryd o fewn maes cyfrifoldeb YYD. Mae'n cydnabod y gellir lleoli disgyblion yn YYD a bod y ddarpariaeth yn amhriodol iddynt felly bod angen darpariaeth arbenigol, er bod yr ysgol wedi bod yn fedrus o ran rheoli'r ychydig ddisgyblion hynny ag anghenion cymhleth a leolir ynddi ar hyn o bryd.

Eto y rhan hon o'r ymgynghoriad a grëodd yr angst mwyaf ymhlith y corff llywodraethu. Mae'n rhagweld y bydd yn safle addas i ddysgwyr â materion ymddygiadol ac iechyd meddwl sylweddol a lefelau uchel o orbryder, rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yn yr Awdurdod. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn nodi y byddai'r cyfleuster newydd yn darparu ar gyfer y disgyblion hynny y mae gan y cyngor ddarpariaeth annigonol i ddiwallu eu hanghenion ar hyn o bryd. Mae'r cwricwlwm a dychmygir ar gyfer y dysgwyr hyn yn gofyn nid dim ond sgiliau pynciol arbenigol ond sgiliau addysgu arbenigol hefyd.

Dim ond ychydig o baragraffau byr sydd am y cynlluniau i ymgorffori Y Daith o fewn YYD. Er mwyn i'r cynnig hwn fod yn llwyddiant mae o bwys allweddol bod

trafodaethau sylweddol yn cael eu cynnal cyn y rhoddir hyn ar waith. Eto mae'r raddfa amser arfaethedig o fewn y ddogfennaeth ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb i'w gweld yn gryn her hefyd, ac yn fwy felly oherwydd y gofyniad i reoli canlyniadau Covid-19. Byddai'r Corff Llywodraethu'n croesawu gweld y llwybr critigol sy'n tanategu'r amserlen hon, a'r cyfle i wneud sylwadau arno. Mae'r Llywodraethwyr eisoes wedi nodi nifer o risgiau arwyddocaol a byddai arnynt angen i'r rhain gael sylw.

C) Trwy godi adeilad newydd ar gyfer disgyblion y Ganolfan Dysgu a Lles ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.

Ydw X gyda'r cafeatau a nodir isod.

Nac ydw

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Eglurwch pam:

Am nifer o flynyddoedd, ansawdd yr addysg, yr adnoddau a'r cyfleusterau mewn unedau cyfeirio disgyblion fu Sinderela gwasanaethau addysg ledled y wlad. Mae'r Corff Llywodraethu'n croesawu'r cynnig ar gyfer canolfan arbenigol gan fabwysiadu dull mwy blaengar mewn perthynas ag addysg y disgyblion hynny mae'r ddarpariaeth hon yn angenrheidiol iddynt. Mae hefyd yn cefnogi'r syniad bod angen cyfleusterau addysgu arbenigol ar y disgyblion hyn.

2. Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynigion, nodwch y rhain isod.

Er ein bod yn cefnogi'r cynigion ni fydd y rhain yn cael eu cyflawni heb gyllid priodol. O fewn y ddogfennaeth ceir deuoliaeth yn hynny o beth; mae £589K wedi'i adnabod ar gyfer oddeutu 10 disgybl yn y ganolfan adnoddau arbenigol a £989K ar gyfer oddeutu 90 o ddisgyblion yn y Ganolfan Dysgu a Lles. Nid oes unrhyw sôn yn y ddogfennaeth am y costau y mae'r Awdurdod yn eu hysgwyo ar hyn o bryd gyda lleoliadau y tu allan i'r Sir, er bod disgwyl darparu ar gyfer y disgyblion hyn o fewn yr adnodd newydd. Er bod cryn dipyn wedi cael ei wneud rhaid cydnabod y pwysau y byddai hyn yn ei roi ar uwch aelodau o staff a llywodraethwyr.

Drwy'r ymgynghoriad hwn ni roddir unrhyw ystyriaeth i'r angen am wasanaethau ychwanegol a fyddai'n hanfodol i'w lwyddiant. Rhaid i ddarpariaeth seicolegol a therapi, a lle y bo'n bosibl nyrsio, gael ei hymgorffori o fewn terfynau'r prosiect. Heb yr ymrwymiad a'r manylder hwn ni fydd y dyheadau ar gyfer y ddarpariaeth newydd yn cael eu cyflawni. Ni fydd symud y staff a disgyblion presennol i adeilad newydd yn hynny yn unig yn mynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r Uned Cyfeirio Disgyblion bresennol. Ni fyddai'r Corff Llywodraethu'n cefnogi nac yn cymeradwyo cynnig sy'n sefydlu'r ddarpariaeth newydd mewn modd a fydd yn peri iddo fethu.

3. Unrhyw sylwadau eraill?

Mae'r cynnig i drawsnewid addysg arbenigol gyda'r cyfrifoldeb yn dod dan ymbarél ei hysgol arbennig yn un i'w ganmol, er bod nifer o gafeatau y mae'n rhaid eu cydnabod a gweithio drwyddynt.

Mae'r Llywodraethwyr yn ymfalchïo yn YYD, gyda rheolwyr a staff yr ysgol, a Bro Morgannwg, yn haeddu llawer o glod am ddatblygu a chefnogi'r ysgol.

Yn yr adrannau sy'n asesu'r cynnig a'i oblygiadau, mae'r ffocws ar y Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol arfaethedig. Mae'r Corff Llywodraethu'n gweld rhinweddau yn y cynigion i wella'r ddarpariaeth yn y meysydd hyn. Ar hyn o bryd mae YYD yn fawr iawn yn ôl safonau AAA. Mae'r Llywodraethwyr yn cydnabod bod parhau i ehangu graddfa'r gweithgarwch y mae'n ei reoli'n codi heriau a risgiau a byddent yn gobeithio nad yw'r rhain yn effeithio'n anffafriol ar ansawdd yr addysg y mae disgyblion yn ei chael ar hyn o bryd. Yn yr un modd, rhaid i ansawdd yr arweinyddiaeth yn YYD ar hyn o bryd beidio â chael ei wanhau. O ystyried natur hynod gymhleth arlwy o'r fath, mae lefel anferth o gyfrifoldeb yn cael ei gosod ar arweinwyr, staff a chorff llywodraethu YYD i reoli dan ei hymbarél. Mae angen rhoi ystyriaeth fanwl i hyn os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith. Mae'r Corff Llywodraethu hefyd yn disgwyl i'r Awdurdod gydnabod a chefnogi camau cynnar i ehangu'r tîm arwain i ganlyn arni â'r cynigion hyn. Nid yw'n dymuno bod yn y sefyllfa a brofwyd bum mlynedd yn ôl lle'r oedd disgwyl i'r tîm arwain reoli tair ysgol ac adeiladu pedwaredd un.

Roedd y Corff Llywodraethu'n bryderus iawn nad oedd yr ymgynghoriad yn cydnabod y risgiau hyn nac yn ystyried sut y gellid mynd i'r afael â hwy. Roedd yr anfanteision a nodwyd yn yr ymgynghoriad yn teilyngu un eitem yn unig a oedd yn cydnabod y gallai'r broses o roi'r cynnig ar waith darfu ar reoli staff ac adnoddau. Mae profiad blaenorol yn dynodi bod yr agweddau hyn yn tarfu'n ddifrifol. Yr unig risgiau a adnabuwyd oedd y byddai nifer y disgyblion ag anghenion ICEM yn cynyddu y tu hwnt i gapasiti'r safle arfaethedig cychwynnol ag y byddai angen rheoli traffig. Mae eto'n achos pryder mawr na roddwyd ystyriaeth i'r angen i ddatblygu strwythurau staffio priodol a'r ffrydiau cyllid priodol a fyddai'n angenrheidiol.

O ystyried y cyfrifoldebau cyfreithiol a osodir ar gorff llywodraethu mae ymgorffori Gwasanaeth Ymgysylltu, Canolfan Adnoddau Arbenigol ac Y Daith yn ychwanegol at ei gyfrifoldeb presennol am YYD ac mae'r ehangiad rhagweladwy i ddatblygu ysgol gynradd arbenigol ochr yn ochr â thrawsnewid YYD yn ddarpariaeth uwchradd yn gosod llwyth gwaith sylweddol ar y tîm arwain a'r Corff Llywodraethu y mae'n rhaid iddynt fod yn barod amdano.

Mae'r Llywodraethwyr yn cydnabod bod llwyddiant neu fethiant y prosiect hwn yn dibynnu ar lefel briodol o gyllid. Er mwyn i Fro Morgannwg wireddu ei huchelgais i sicrhau bod ei holl ddisgyblion yn cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl, yna rhaid iddi weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru nid dim ond ar gyfer Cyllid Cyfalaf ond gwariant Refeniw digonol hefyd.

Yn olaf, nid oedd y Corff Llywodraethu yn unfrydol yn ei gefnogaeth i'r cynnig hwn ac fe fynegodd pawb bryderon dwfn nad yw'r ymgynghoriad yn mynd i'r afael yn ddigonol â manylion sut y byddai'r cynllun hwn yn cael ei roi ar waith yn effeithiol. Eto, mae'r Corff Llywodraethu'n dal i ddymuno gweithio mewn partneriaeth gyda'r Awdurdod i drawsnewid ei ddarpariaeth addysgol arbenigol er mwyn diwallu anghenion ei ddysgwyr mwyaf agored i niwed yn y ffordd orau bosibl.